



Priodoldeb i Ymarfer

Gwybodaeth i bersonau cofrestredig

Rwyf wedi derbyn llythyr gan y Tîm Priodoldeb i Ymarfer. Beth mae hyn yn ei olygu?

Darllenwch y llythyr yn ofalus.

Mae'r llythyr yn esbonio bod corff – gallai hyn fod yn gyflogwr/asiantaeth - wedi cyfeirio achos at Gyngor y Gweithlu Addysg ('CGA') amdanoch chi. Mae hyn oherwydd eich bod wedi cael euogfarn neu rybuddiad gan yr Heddlu neu eich diswyddo gan gyflogwr (sef ysgol, sefydliad addysg bellach neu unrhyw gorff perthnasol arall sy'n cyflogi gweithiwr ieuencid, gweithiwr cymorth ieuencid neu ymarferydd dysgu seiliedig ar waith) yn ddiweddar am eich ymddygiad (y tu mewn neu'r tu allan i sefydliad addysgol) neu eich anghymhwysedd (sef eich gallu fel ymarferydd addysg).

Mae gan rai cyrff gyfrifoldeb i hysbysu CGA os ydych wedi bod yn destun camau troseddol neu gamau disgyblu oherwydd eich bod wedi'ch cofrestru, ac yn arbennig os mai athro ysgol sy'n meddu ar Statws Athro Cymwysedig (SAC) ydych, achos bod gennych fynediad i blant a phobl ifanc.

Yn ogystal, gall unrhyw berson neu sefydliad wneud cwyn am ymddygiad ymarferydd addysg sydd wedi'i gofrestru gyda CGA. Gallai'r llythyr gadarnhau hyn, ac atodi'r gŵyn mae wedi'i derbyn amdanoch.

A wyf wedi gweithredu'n groes i 'safon' ymddygiad neu berfformiad?

Rôl CGA yw penderfynu a ydych wedi gwneud hynny ai peidio, ac o ganlyniad, a ddylai eich cofrestriad gael ei effeithio ai peidio.

Ym mis Ebrill 2015, cyhoeddodd CGA God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol y mae'n rhaid i'r gweithlu addysg yng Nghymru gydymffurfio ag ef. Canllaw yw'r Cod i'r safonau y gall dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd ei ddisgwyl gennych, ac mae'n eich helpu i ddeall yr hyn mae eraill yn ei ddisgwyl gennych fel gweithiwr proffesiynol.

Er bod 99.9% o bersonau cofrestredig yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod, mae lleiafrif ohonynt yn gweithredu'n groes iddo bob blwyddyn. Mae gan y Cyngor rymoedd cyfreithiol i ymchwilio i'r achosion hyn o weithredu'n groes iddo.

Nid yw'r Cod yn trafod pob enghraifft o safonau y mae angen i ymarferwyr addysg eu cyrraedd. Canllaw yw e.

Beth sy'n digwydd nawr? A oes angen i mi wneud unrhyw beth?

Bydd CGA yn ystyried yr wybodaeth a dderbyniwyd amdanoch ac yn penderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf. Bydd hyn yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr hyn a gyfeirir. Bydd hefyd yn cyflawni ymholiadau arferol a gallai ofyn am fwy o wybodaeth. Er enghraifft, Memorandwm Euogfarn gan Lys, neu bapurau pellach gan y cyflogwr perthnasol.

Yna bydd CGA yn anfon llythyr atoch yn cadarnhau ei benderfyniad.

Mae'n bosibl y gallai CGA **benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau** oherwydd, er enghraifft, bod trosedd yn un gymharol fân.

Mae'n bosibl y gallai CGA fod o'r farn bod **angen i Bwyllgor Ymchwilio edrych** ar eich ymddygiad neu eich cymhwysedd oherwydd ei fod yn fwy difrifol. Os felly, bydd yn anfon Rhybudd Ymchwilio atoch. **Mae CGA yn argymhell yn gryf y dylech gysylltu â'ch undeb ar yr adeg hon er mwyn iddo roi'r arweiniad a'r cymorth y bydd eu hangen arnoch.**

Dylech ddarllen y Rhybudd yn ofalus ac ymateb iddo erbyn y dyddiad a nodir.

Bydd Pwyllgor Ymchwilio yn cyfarfod yn breifat i benderfynu a oes gennych 'achos i'w ateb'; hynny yw, a allai'r trothwy ar gyfer 'ymddygiad proffesiynol annerbyniol', 'anghymhwysedd proffesiynol difrifol', neu euogfarn am 'drosedd berthnasol' gael ei fodloni.

A oes angen i mi ddweud wrth fy nghyflogwr presennol fy mod yn destun ymchwiliad?

Penderfyniad i chi yw hwn gydag arweiniad eich undeb, ond dylech nodi bod y Cod yn gofyn i bersonau cofrestredig hysbysu eu cyflogwr presennol o unrhyw drosedd gofnodadwy a gyflawnir.

Mae'n rhaid i CGA hysbysu eich cyflogwr presennol neu eich cyflogwr diweddaraf bod ymchwiliad yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, pan lle bydd yn penderfynu peidio â chymryd camau, dim ond gyda'ch caniatâd chi y caiff hysbysu eich cyflogwr.

Penderfynodd y Pwyllgor Ymchwilio fod gen i achos i'w ateb. Beth sy'n digwydd nawr?

Bydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn cyfarfod i benderfynu a ddylid effeithio ar eich cofrestriad ai peidio o ganlyniad i'r wybodaeth a dderbyniwyd am eich ymddygiad neu eich anghymhwysedd. Gwrandawriad cyhoeddus fydd hwn.

Bydd CGA yn anfon Rhybudd Gweithrediadau atoch a fydd yn nodi manylion y gwrandawriad, ac yn gofyn i chi ymateb.

Beth sy'n digwydd mewn gwrandawriad Priodoldeb i Ymarfer?

Ar ôl archwilio'r ffeithiau, bydd Pwyllgor yn penderfynu a yw'r ffeithiau wedi'u profi ai peidio, a **yw'r trothwy ar gyfer 'ymddygiad proffesiynol annerbyniol', 'anghymhwysedd proffesiynol difrifol', neu euogfarn am 'drosedd berthnasol' wedi'i fodloni, ac a ddylai cofrestriad yr athro neu athrawes gael ei effeithio gan un o'r gorchymynion disgyblu canlynol:**

Cerydd (2 flynedd) – mae hyn yn golygu na effeithir ar eich cofrestriad a chewch barhau i ymarfer.

Gorchymyn Cofrestru Amodol (unrhyw gyfnod amser) – mae hyn yn golygu na effeithir ar eich cofrestriad cyhyd â'ch bod yn bodloni'r amodau a osodir gan y Pwyllgor.

Gorchymyn Atal (hyd at 2 flynedd) – mae hyn yn golygu bod eich cofrestriad yn cael ei atal. Ni chewch ymarfer fel person cofrestredig am y cyfnod hwnnw.

Gorchymyn Gwahardd – mae hyn yn golygu bod eich cofrestriad yn cael ei ddileu. Ni chewch ymarfer fel person cofrestredig am y cyfnod hwnnw. Mae'r Pwyllgor yn gosod cyfnod amser penodol (isafswm o 2 flynedd) ac ar ôl i'r cyfnod ddod i ben, gall y person wneud cais i gael eich ailystyried fel person addas i'ch cofrestru. Os na fydd cais tebyg yn llwyddiannus, bydd y Gorchymyn Gwahardd yn parhau mewn grym.

Nid wyf yn aelod o undeb. Beth dylwn ei wneud?

Mae CGA yn eich annog yn gryf i ofyn am gyngor a chymorth proffesiynol gan, er enghraifft, undeb neu gymdeithas broffesiynol cyn gynted ag y byddwch yn derbyn y Rhybudd Ymchwilio. Os nad ydych yn aelod o sefydliad o'r fath, dylech geisio cael cyngor proffesiynol arall, er enghraifft, gan gyfreithiwr neu swyddfa Cyngor ar Bopeth cyn ymateb.

Dylech nodi ei bod yn annhebygol y bydd cyllid cyfreithiol ar gael i bersonau cofrestredig sy'n destun ymchwiliad a gwrandawriad o dan y gweithdrefnau hyn. Ni fyddwch yn gallu hawlio eich costau yn ôl gan neb arall sy'n gysylltiedig.

Ynghylch y daflen hon

Crynodeb bras yw'r wybodaeth yn y daflen hon o weithdrefnau disgyblu CGA.

O dan unrhyw amgylchiadau, *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015*, a *Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2021* CGA sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r Rheolau a gwybodaeth arall am rôl rheoleiddio CGA i'w gweld yn www.cga.cymru

Nid oes unrhyw reolau cyffredinol yn berthnasol wrth benderfynu difrifoldeb yr ymddygiad neu'r cymhwysedd a adroddir, ac a ddylid effeithio ar gofrestrriad ymarferydd addysg.

Cysylltiadau allweddol

Swyddog a enwir o'r Tîm Priodoldeb i Ymarfer fydd eich pwynt cyswllt.

Cyfeiriad **Y Tîm Priodoldeb i Ymarfer**, Cyngor y Gweithlu Addysg, 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB

Ffôn 029 2046 0099

Rhif ffacs 029 2047 5850

E-bost priodoldebiymarfer@cga.cymru

Caiff personau cofrestredig sy'n ddarostyngedig i'r gweithrediadau hyn gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i CGA yn Gymraeg neu Saesneg.

Geirfa

CGA	Cyngor y Gweithlu Addysg;
Gorchymyn Disgyblu	Cerydd, Gorchymyn Cofrestru Amodol, Gorchymyn Atal (gyda neu heb amodau) neu Orchymyn Gwahardd;
GDG	<p>Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Sefydlwyd hwn pan unwyd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) a'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) ar 1^{af} Rhagfyr 2012.</p> <p>Mae'r GDG yn gyfrifol am ddarparu gwiriadau cofnodion troseddol, a chynnal rhestrau personau sy'n anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. I'r perwyl hwnnw, mae'n penderfynu a yw plentyn neu oedolyn agored i niwed wedi cael niwed, neu a yw mewn perygl o gael niwed.</p> <p>Ni all CGA edrych ar wybodaeth sy'n ymwneud â niwed neu risg o niwed i blant neu oedolion agored i niwed, oni bai bod y GDG yn penderfynu peidio â chymryd camau yn erbyn ymarferydd addysg a gaiff ei gyfeirio ato.</p> <p>Caiff unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan y CGA ar unrhyw adeg sy'n awgrymu niwed, neu risg o niwed i blant neu oedolion agored i niwed ei hanfon at y GDG. Bydd hyn yn arafu cynnydd achos gyda CGA.</p>
Person cofrestredig	Person sydd wedi'i gofrestru ar hyn o bryd, <i>neu</i> berson a oedd wedi'i gofrestru ar adeg unrhyw ymddygiad neu drosedd honedig ar ei ran neu ar ei rhan, <i>neu</i> berson sydd wedi ymgeisio i gael ei gofrestru;
Trosedd berthnasol	Yn achos euogfarn yn y Deyrnas Unedig, trosedd berthnasol heblaw un nad oes ganddi unrhyw berthnasedd materol i briodoldeb person i fod yn berson cofrestredig yn y categori cofrestru perthnasol. Yn achos euogfarn o rywle arall, dyma drosedd a fyddai wedi bod yn gyfystyr â throedd o'r fath pe bai wedi'i chyflawni yng Nghymru a Lloegr;
Anghymhwysedd proffesiynol difrifol	Ymddygiad sy'n dangos lefel o gymhwysedd sy'n methu'n ddifrifol â chyrraedd y safon a ddisgwylir gan berson cofrestredig, gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol;
Ymddygiad proffesiynol annerbyniol	Ymddygiad sy'n methu â chyrraedd y safon a ddisgwylir gan berson cofrestredig.